# Sicrhau cydraddoldeb i bawb



canolfanbydgwaith

Yn cynnwys Canolfannau Gwaith a swyddfeydd nawdd cymdeithasol

Ein nod yw bod yn brif ddarparwr gwasanaeth sy'n rhoi mynediad teg a chyfartal i'n holl raglenni a gwasanaethau p'un a ydych yn chwilio am waith, hyfforddiant neu'n gwneud cais am fudd-dal. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn adolygu ein rhaglenni a'n gwasanaethau yng ngoleuni gwybodaeth a gasglwn ar ethnigrwydd a statws mewnfudo ein cwsmeriaid.

## Pam bod angen i chi wybod am fy ethnigrwydd a'm statws mewnfudo?

Rydym yn casglu gwybodaeth ar ethnigrwydd a statws mewnfudo'r holl bobl sy'n cael cymorth gennym. Cesglir y wybodaeth hon am ei bod yn ategu'r gwaith a wneir i fodloni'r rhwymedigaethau sydd ar yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â chydraddoldeb. Hefyd, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn argymell y dylid casglu gwybodaeth ar ethnigrwydd.

Heb wybodaeth ar eich ethnigrwydd a'ch statws mewnfudo, mae'n anodd barnu p'un a yw ein holl gwsmeriaid, y rhai a anwyd yn y Deyrnas Unedig a'r rhai sydd wedi dewis byw yma, yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn ein gwasanaethau a chael budd ohonynt.

Mae mwy a mwy o gyflogwyr a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus bellach yn casglu gwybodaeth am ethnigrwydd pobl er mwyn eu helpu i wella eu gwasanaethau i'w holl gwsmeriaid a sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

## Sut y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth am fy ethnigrwydd a'm statws mewnfudo?

Bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn ein helpu i fesur i ba raddau y mae'r gwasanaethau a ddarparwn yn diwallu anghenion pob cymuned. Byddwn hefyd yn gallu ei defnyddio i wella'r gwasanaethau hyn pan fydd angen.

## Pa gategorïau ethnigrwydd rydych yn eu defnyddio?

Mae'r categorïau ethnigrwydd a ddefnyddiwn yr un fath â'r rhai hynny a ddefnyddiwyd ar gyfer Cymru a Lloegr yn ystod cyfrifiad 2001.

## Pa ddiffiniadau a ddefnyddiwch ar gyfer statws mewnfudo?

Rydym yn defnyddio diffiniadau statws mewnfudo'r Swyddfa Gartref.

## Sicrhau cydraddoldeb i bawb

Eich dewis chi yw llenwi'r wybodaeth hon ai peidio, ni fydd yn effeithio ar eich hawl i gael Lwfans Ceisio Gwaith neu fudd-daliadau a lwfansau eraill.

Ticiwch un o'r blychau isod sy'n disgrifio eich ethnigrwydd orau yn eich barn chi.

**Gwyn**

1 ☐ Prydeinig

2 ☐ Gwyddelig

3 ☐ Arall gwyn

**Cymysg**

4 ☐ Gwyn a du Caribïaidd

5 ☐ Gwyn a du Affricanaidd

6 ☐ Gwyn ac Asiaidd

7 ☐ Arall cymysg

**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

8 ☐ Indiaidd

9 ☐ Pacistanaidd

10 ☐ Bangladeshaidd

11 ☐ Arall Asiaidd

**Du neu Ddu Prydeinig**

12 ☐ Caribïaidd

13 ☐ Affricanaidd

14 ☐ Du arall

**Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall**

15 ☐ Tsieineaidd

16 ☐ Grŵp ethnig arall

**Ticiwch un o'r blychau isod sy'n disgrifio eich statws mewnfudo orau yn eich barn chi.**

1.1 ☐ Ffoadur

2.1 ☐ O dan ddiogelwch dyngarol, wedi cael caniatâd disgresiwn neu ganiatâd eithriadol i ddod i'r DU neu i aros yma

3.1 ☐ Dim un o'r uchod

4.1 ☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud

## Fformatau eraill

Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill. Mae hefyd ar gael mewn fformatau eraill yn cynnwys mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras.

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael rhagor o wybodaeth.

## Cyfrinachedd

Ar y slip ateb, gofynnwn i chi dicio'r blwch sy'n adlewyrchu eich ethnigrwydd a'ch statws mewnfudo orau yn eich barn chi. Byddwn yn storio unrhyw wybodaeth a roddwch i ni ar ein system gyfrifiadurol yn hollol gyfrinachol a dim ond i farnu pa mor dda rydym yn darparu ein gwasanaethau y byddwn yn ei defnyddio.

Nodwch: Byddwn yn dinistrio eich slip ateb ar ôl cofnodi eich manylion ar ein cyfrifiadur, a gallwch ofyn am gael gweld unrhyw rai o'ch manylion personol unrhyw bryd.

Cofiwch mai canllaw gyffredinol yn unig yw'r daflen hon. Ni fwriedir iddi ddatgan eich hawliau cyfreithiol yn union. Er i ni geisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar y dyddiad a ddangosir ar y clawr, mae'n bosibl y gall fod gwybodaeth sy'n anghywir neu fod rhai eitemau wedi'u gorsymleiddio. Cofiwch hefyd ei bod yn debygol y bydd y wybodaeth yn y daflen hon yn dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau yn y gyfraith.

**www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i gynnwys egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Taflen EEA5JPW ISBN: 1-84388-908-0 Ebrill 2006